# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

**2023 dsc 4**

## RHAN 4

COEDWIGAETH

### 44 Diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Coedwigaeth 1967

(1) Mae Deddf Coedwigaeth 1967 (p. 10) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 10 (cais am drwydded cwympo coed a phenderfyniad awdurdod priodol), yn is-adran (2), ar ddiwedd paragraff (a), hepgorer “or”.

(3) Yn adran 12 (trwyddedau amodol), yn is-adran (1), ar ôl “section 10(2)” mewnosoder “(a) or (b)”.

(4) Yn adran 26 (treuliau etc. mewn cysylltiad â hysbysiadau)—

- (a) yn y pennawd, ar y diwedd, mewnosoder “, s. 24C(3) or s. 24D(2)”;
- (b) yn is-adran (1)—
  - (i) ar ôl “under section 24”, mewnosoder “, section 24C(9) or section 24D(4)”;
  - (ii) yn lle “under that section” rhodder “under either of those sections”.

(5) Yn adran 27 (Pwyllgorau cyfeirio)—

- (a) yn y pennawd, yn lle “and 25” rhodder “, 25, 26A, 26B and 26C”;
- (b) yn is-adran (1), yn lle “and 25” rhodder “, 25, 26A, 26B and 26C”.

(6) Yn adran 29 (darpariaethau’n ymwneud â morgeisi a thir setledig)—

- (a) yn is-adran (1), ym mharagraff (a), yn lle “or section 26” rhodder “, 26, 26D, 26E or 26F”;
- (b) yn is-adran (3), yn lle “or section 26” rhodder “, 26, 26D, 26E or 26F”.

(7) Ym mhennawd adran 31 (penderfynu ar faterion sy’n codi o dan adrannau 11, 14, 21 a 22), yn lle “and 22” rhodder “, 22, 26D, 26E and 26F”.

## Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 44 mewn grym ar 18.8.2023 at ddibenion penodedig, gweler **a. 56(1)(a)**

**I2** A. 44 mewn grym ar 1.4.2024 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2023/1092, **ergl. 3(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Adran 44.